# Creu darlun o'r Deyrnas Unedig un cyfweliad ar y tro

**Mae pawb sy'n cymryd rhan yn Understanding Society yn unigolyn – mae eich bywyd a'ch profiadau yn unigryw. Nid oes unrhyw un arall yn yr Astudiaeth fel chi ac ni allwn ddisodli'ch cyfweliad ag unrhyw un arall.**

O bob rhan o'r DU, mae degau o filoedd o unigolion yn cymryd rhan yn Understanding Society a gyda'i gilydd mae'r cyfweliadau hyn yn ein helpu i greu darlun cywir o fywyd yn y DU heddiw. Trwy Understanding Society gallwn weld lle mae bywydau pobl yn newid, beth sy'n aros yr un fath a phrofiadau gwahanol genedlaethau. Mae'n ein helpu i ddeall pa bolisïau'r llywodraeth sydd wedi gweithio, a pha rai sydd ddim, sut mae teuluoedd a chymunedau yn newid dros amser a sut mae barn gymdeithasol a gwleidyddol yn datblygu. Mae Understanding Society yn chwarae rhan allweddol mewn ymchwil feddygol, gan ein helpu i ddeall iechyd yn well a thrin afiechydon.

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwybodaeth gan Understanding Society wedi cael ei defnyddio i edrych ar:**

- addysg gartref yn ystod cyfnod clo Covid-19
- cydraddoldeb rhywiol yn y gwaith
- pa mor hapus yw plant
- newidiadau mewn ymddygiad iechyd
- recriwtio a chadw athrawon
- anghenion teithio pobl hŷn
- defnydd banc bwyd
- effaith ysgariad yn ddiweddarach mewn bywyd ar iechyd meddwl
- anghydraddoldebau rhwng cenedlaethau
- atal bwlio ymysg pobl ifanc yn eu harddegau
- y cysylltiadau rhwng llygredd aer a materion cof

A llawer, llawer mwy. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am sut y mae Understanding Society yn cael ei ddefnyddio trwy edrych ar ein gwefan: www.understandingsociety.ac.uk/participants

**Beth bynnag fo'ch rhesymau dros gymryd rhan – diolch yn fawr.**
**Mae eich cyfweliad yn gwneud gwahaniaeth.**

Economic and Social Research Council

INSTITUTE FOR SOCIAL & ECONOMIC RESEARCH

## Understanding Society a chyfrinachedd

Rydym yn cymryd gofal mawr i ddiogelu cyfrinachedd ein cyfranogwyr. Mae'ch manylion personol fel enw, cyfeiriad a dyddiad geni yn cael eu tynnu oddi ar eich arolwg, fel na ellir eich adnabod. Nid yw'ch manylion byth ar gael i ymchwilwyr nac i unrhyw gwmnïau eraill a allai eu defnyddio at ddibenion marchnata. Fodd bynnag, os dywedwch rywbeth wrthym sy'n gwneud i ni boeni am eich diogelwch chi neu ddiogelwch eich plant, efallai y bydd yn rhaid i ni drafod hyn gyda rhywun arall gan fod angen i ni sicrhau eich bod yn ddiogel.

## A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel os byddaf yn gwneud yr arolwg ar-lein?

Ydy. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu ar-lein yn ddiogel. Rydych chi'n cael manylion mewngofnodi unigryw ar gyfer yr arolwg. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni yn cael ei llwytho i lawr i weinyddion diogel.

## Pwy sy'n gwirio bod Understanding Society yn cadw gwybodaeth yn ddiogel?

Mae Understanding Society yn cydymffurfio â phrotocolau a gweithdrefnau diogelwch data ISO-27001, sy'n safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Rydym yn cael ein harchwilio'n rheolaidd gan archwilydd annibynnol fel rhan o'n hardystiad ISO-27001. Mae ein partneriaid gwaith maes, NatCen Social Research a Kantar, hefyd wedi cyflawni ardystiad ISO-27000.

## A yw Understanding Society yn cydymffurfio â GDPR?

Ydy. Rydym yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Am fwy o wybodaeth am Ddiogelwch Data a GDPR ewch i:
**www.understandingsociety.ac.uk/participants/data-confidentiality**

**Dysgwch fwy am Understanding Society**

Gallwch chi ymweld â'n gwefan:
**www.understandingsociety.ac.uk**

Ar Radffôn:
**0800 252 853**

Gallwch gysylltu â'n tîm cyswllt cyfranogwyr drwy e-bost:
**contact@understandingsociety.ac.uk**

Neu ysgrifennwch atom ni:
**FREEPOST RRXX-KEKJ-JGKS**
**Understanding Society, University of Essex, Wivenhoe Park, Colchester, CO4 3SQ**

Dilynwch ni ar
**@usociety**
**/usociety**